PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, GWASANAETHAU OEDOLION

DYDD LLUN, 8 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Elsmore(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowen-Thomson, Hinchey, McKerlich a/ac Williams |

17 : YMDDIHEURIADAU

Nid oedd ymddiheuriadau i'r cyfarfod hwn.

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

19 : CYLCH GORCHWYL

Cyflawni swyddogaethau’r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â’r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

20 : COFNODION

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Penodi ar 24 Medi 2018 eu cymeradwyo a’u llofnodi yn gofnod cywir.

21 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y’i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y’i diffinnir isod, i’r aelodau’r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy’n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i’r awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

22 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL GWASANAETHAU I OEDOLION

Galwyd y Pwyllgor i gyfweld yr un ymgeisydd a gyrhaeddodd y rhestr fer a gynigiwyd gan y Pwyllgor ar 24 Medi 2018 yn dilyn canlyniadau’r Ganolfan Asesu.

Fel rhan o’r broses gyfweld, rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau yn ei gylch.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Oedolion.

PENDERFYNWYD –

1. Y dylai Louise Barry gael ei apwyntio fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau Oedolion a'r cyflog blynyddol a gysylltir â'r swydd;

2. Cynhaliwyd y broses ddethol yn unol â'r broses benodi a bod pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg;
   Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl ei haeddiant.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am